# Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Amcan Gwella 1

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw bolisïau, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau, ac mae'n cynnwys dogfennau newydd, rhai wedi'u hadolygu neu rai wedi'u diwygio'n sylweddol.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir**<br><br>**Amcan 1 Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.** | |
| **Bwrdd/Adran/Tîm**<br><br>**Diogelwch Tân** | |
| **Dyddiad sgrinio 6 Mawrth 2014** | **Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?**<br><br>*h.y. staff, y gymuned, grwpiau, busnesau ac ati.* |
| **Nodau, amcanion a chanlyniadau**<br><br>**Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi trwy ostwng nifer yr achosion o dân drwy waith addysg, gwaith ataliol ac ymyrraeth.** | |

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ein cynorthwyo i hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal â rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon. Arf yw hwn a fydd o gymorth ichi pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddaru polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn fodd i wasanaethu fel awdit o'r penderfyniadau y byddwch yn eu cynnig.

Mae asesu ar gyfer effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae'n rhaid inni ystyried sut y bydd y penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw neu ogwydd rhywiol.

## Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchodedig isod, a nodwch a oes risg effaith **isel**, **canolig** ynteu **uchel** i'ch cynnig.

| **Lefel y risg** | |
|---|---|
| Isel | Yr effaith leiaf bosibl neu effaith fach iawn ar nodwedd warchodedig. Effaith niweidiol yn annhebygol. |
| Canolig | Risg isel i ganolig y gallai effaith ar nodwedd warchodedig ddigwydd. Mae mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol yn digwydd.<br><br>Os oes rhesymau lliniarol, megis rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. oedran trwydded yrru), gofynion y swydd (e.e. prawf llygaid i recriwtiaid), neu feini prawf prosiect (e.e. gyrwyr ifanc), rhaid cynnwys y rhain yn yr adran berthnasol. Sylwer na all y gost yn unig fod yn rheswm lliniarol. |
| Uchel | Effaith negyddol fawr ar y grŵp nodweddion gwarchodedig o ran y gymuned, y staff neu brosesau busnes. Byddai'n arwain at beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, ac felly gallai olygu risg i'r sefydliad. Os gwelir y lefel hon, rhaid llenwi Ffurflen Asesiad Llawn (B).<br><br>Ond os yw'r effaith yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau i grŵp sydd wedi ei dangynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân wedi ei hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol, a chaniateir hyn gan y gyfraith. |
| **Arferion Da / Ffactorau Lliniarol** | Os bydd y weithdrefn, y prosiect, y cynllun ayyb yn darparu gwelliannau – er enghraifft, pan fo'r geiriad yn cael ei wneud yn fwy cynhwysol, cofiwch roi hyn yn yr adran Arferion Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y nodir yn y Canllawiau), cofiwch eu nodi yma. |

| Nodweddion Gwarchodedig | Lefel y risg Uchel, Canolig, Isel | Eglurwch yn fras beth yw eich asesiad os gwelwch yn dda | Arferion Da a/neu Ffactorau Lliniarol |
|---|---|---|---|
| **Oedran**<br>(iau, hŷn neu grŵp oedran arbennig) | Canolig | Canfuwyd yn ffactor cyfrannol sy'n cynyddu lefel y risg o dân damweiniol yn y cartref - mae'r camau gweithredu dan yr amcan hwn yn canolbwyntio ar leihau'r risg ar gyfer y nodwedd warchodedig hon | Staff Diogelwch Cymunedol pwrpasol – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth / Protocol Rhannu Gwybodaeth gyda phob asiantaeth sy'n bartner inni – blaenoriaethu archwiliadau sy'n dod drwy atgyfeiriad gan asiantaeth – Cydlynydd y 3ydd Sector a chefnogwyr darpariaeth – ymyriadau pwrpasol – rhaglen addysg ysgolion. |
| **Anabledd**<br>(corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, dirgel) | Canolig | Canfuwyd yn ffactor cyfrannol sy'n cynyddu lefel y risg o dân damweiniol yn y cartref - mae'r camau gweithredu dan yr amcan hwn yn canolbwyntio ar leihau'r risg ar gyfer y nodwedd warchodedig hon | Staff Diogelwch Cymunedol pwrpasol a HSSW - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth / Protocol Rhannu Gwybodaeth gyda phob asiantaeth sy'n bartner inni – blaenoriaethu archwiliadau - Cydlynydd y 3ydd Sector a chefnogwyr darpariaeth – ymyriadau pwrpasol megis systemau symudol i lethu tân ar gyfer problemau symudedd difrifol. |
| **Ailbennu Rhywedd**<br>(rhywun sydd mewn stad o drawsnewid o un rhyw i'r llall) | Isel | Ni chanfuwyd unrhyw effaith niweidiol yn y cam hwn, ond caiff y data ei fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. | Ni chanfuwyd unrhyw effaith niweidiol yn y cam hwn ond caiff data ein fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. |
| **Priodas/Partneriaeth Sifil**<br>(cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw) | Isel | Ni chanfuwyd unrhyw effaith niweidiol yn y cam hwn, yn wir mae'n cael gwared ar un o'r ffactorau cyfrannol sy'n cynyddu'r risg o dân damweiniol yn y cartref, h.y. pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Caiff y data ei fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. | Ar hyn o bryd, mae'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim, ac ar gael i bawb gyda chefnogaeth ychwanegol a mesurau ar gyfer y rhai a ganfyddir sydd â risg uwch |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>(Beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth, bwydo o'r fron) | Isel | Ni chanfuwyd unrhyw effaith niweidiol yn y cam hwn, ond caiff y data ei fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. | Ar hyn o bryd, mae'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim, ac ar gael i bawb gyda chefnogaeth ychwanegol a mesurau ar gyfer y rhai a ganfyddir sydd â risg uwch |
| **Hil**<br>(Tarddiad Ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr) | Isel | Ni chanfuwyd unrhyw effaith niweidiol yn y cam hwn, ond caiff y data ei fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. | Ar hyn o bryd, mae'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim ac ar gael i bawb gyda chefnogaeth ychwanegol a mesurau ar gyfer y rhai a ganfyddir sydd â risg uwch, megis Intel gan yr Heddlu ar gyfer troseddau casineb posibl ar sail hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crefydd/Credoau**<br>(Cristion, Mwslemaidd, Hindwaidd, Iddewig, Bwdaidd | Isel | Ni chanfuwyd unrhyw effaith niweidiol yn y cam hwn, ond caiff y data ei fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. | Ar hyn o bryd, mae'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim, ac ar gael i bawb gyda chefnogaeth ychwanegol a mesurau ar gyfer y rhai a ganfyddir sydd â risg uwch, megis cyswllt/cyngor ar adeg gwyliau crefyddol pryd y gallai rhai defodau gynyddu'r risg, e.e. pelenni pêr. |
| **Rhyw**<br>(Menyw, Dyn) | Isel | Nid ystyrir yn y cam hwn bod effaith niweidiol yn fwy cyffredin ymysg y naill ryw na'r llall, ond caiff data ei fonitro'n barhaus i ganfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg | Mae'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim, ac ar gael i bawb gyda chefnogaeth ychwanegol a mesurau ar gyfer y rhai a ganfyddir sydd â risg uwch, e.e. blaenoriaeth i rywun o'r naill ryw neu'r llall sy'n byw ar eu pen eu hunain. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>(Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol) | Isel | Nid ystyrir yn y cam hwn bod effaith niweidiol yn fwy cyffredin ymysg unrhyw grŵp penodol oherwydd bod y nodwedd warchodedig hon â risg uwch o dân damweiniol yn y cartref, ond caiff y data ei fonitro'n barhaus er mwyn canfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg | Mae'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim, ac ar gael i bawb gyda chefnogaeth ychwanegol a mesurau ar gyfer y rhai a ganfyddir sydd â risg uwch, megis Intel gan yr Heddlu ar gyfer troseddau casineb posibl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. |
| **Iaith**<br>(Cymraeg eu hiaith, ieithoedd lleiafrifol ethnig, Braille, iaith arwyddion) | Isel | Ni chanfuwyd dim effaith niweidiol yn y cam hwn, ond caiff y data ei fonitro'n barhaus gan gynnwys data am iaith y cais a'r archwiliad er mwyn canfod unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg. | Fel uchod, mae'r holl ddeunyddiau ar gael yn ddwyieithog, dewis iaith yr archwiliad, ac ymyriadau penodol megis larymau / seinyddion ar gyfer pobl trwm eu clyw. |

***Os gwelir risg uchel i unrhyw nodwedd warchodedig, bydd angen Asesiad Llawn*** *(Ffurflen B)****. Os canolig yw'r risg, ond nad oes unrhyw Ffactorau Lliniarol, mae angen Asesiad Llawn hefyd, felly siaradwch gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb.***

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd ichi ei llenwi (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect ayyb), a chadwch gopi gyda'r ddogfen berthnasol.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gael eu cyhoeddi, felly caiff hon ei huwchlwytho i'r adran *Asesiad Effaith Cydraddoldeb* ar y fewnrwyd, ac mae'n bosibl y bydd ar gael ar ein gwefan hefyd.

Cofiwch edrych ar y Canllawiau os nad ydych yn siwr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

| **Llofnod y sawl sy'n sgrinio:** | **Llofnod y sawl sy'n awdurdodi:** |
|---|---|
| Llofnod: | Llofnod: |
| Enw: G Brandrick Dyddiad: 6 Mawrth 2014 | Enw: Dyddiad: |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Amcan Gwella 2

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw bolisïau, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau, ac mae'n cynnwys dogfennau newydd, rhai wedi'u hadolygu neu rai wedi'u diwygio'n sylweddol.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir**<br><br>***Amcan Gwella 2*** - Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014/15 i 2016/17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol | |
| **Bwrdd/Adran/Tîm**<br><br>**Cynllunio Corfforaethol** | |
| **Dyddiad sgrinio 4 Mawrth 2014** | **Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?**<br><br>Pob rhanddeiliad – aelodau o'r cyhoedd, trigolion Gogledd Cymru, sefydliadau eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus, staff y gwasanaeth, busnesau lleol ayyb. |
| **Nodau, amcanion a chanlyniadau**<br><br>Mabwysiadu cynllun ariannol tair blynedd newydd ar gyfer 2014/15 i 2016/17, sy'n ariannu'r lefel gyfredol o wasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu'r gost o wneud hynny i'r hyn sy'n cyfateb i £1 y pen y flwyddyn yn ychwanegol. | |

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ein cynorthwyo i hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal â rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon. Arf yw hwn a fydd o gymorth ichi pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddaru polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn fodd i wasanaethu fel awdit o'r penderfyniadau y byddwch yn eu cynnig.

Mae asesu ar gyfer effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae'n rhaid inni ystyried sut y bydd y penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw neu ogwydd rhywiol.

## Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchodedig isod, a nodwch a oes risg effaith **isel**, **canolig** ynteu **uchel** i'ch cynnig.

| **Lefel y risg** | |
|---|---|
| Isel | Yr effaith leiaf bosibl neu effaith fach iawn ar nodwedd warchodedig. Effaith niweidiol yn annhebygol. |
| Canolig | Risg isel i ganolig y gallai effaith ar nodwedd warchodedig ddigwydd. Mae mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol yn digwydd.<br><br>Os oes rhesymau lliniarol, megis rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. oedran trwydded yrru), gofynion y swydd (e.e. prawf llygaid i recriwtiaid), neu feini prawf prosiect (e.e. gyrwyr ifanc), rhaid cynnwys y rhain yn yr adran berthnasol. Sylwer na all y gost yn unig fod yn rheswm lliniarol. |
| Uchel | Effaith negyddol fawr ar y grŵp nodweddion gwarchodedig o ran y gymuned, y staff neu brosesau busnes. Byddai'n arwain at beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, ac felly gallai olygu risg i'r sefydliad. Os gwelir y lefel hon, rhaid llenwi Ffurflen Asesiad Llawn (B).<br><br>Ond os yw'r effaith yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau i grŵp sydd wedi ei dangynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân wedi ei hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol, a chaniateir hyn gan y gyfraith. |
| **Arferion Da / Ffactorau Lliniarol** | Os bydd y weithdrefn, y prosiect, y cynllun ayyb yn darparu gwelliannau – er enghraifft, pan fo'r geiriad yn cael ei wneud yn fwy cynhwysol, cofiwch roi hyn yn yr adran Arferion Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y nodir yn y Canllawiau), cofiwch eu nodi yma. |

| Nodweddion Gwarchodedig | Lefel y risg Uchel, Canolig, Isel | Eglurwch yn fras beth yw eich asesiad os gwelwch yn dda | Arferion Da a/neu Ffactorau Lliniarol |
|---|---|---|---|
| **Oedran**<br>(iau, hŷn neu grŵp oedran arbennig) | Isel (bach) | Risg bychan os tynnir yr arian grant, ni fyddai cyllideb ddigyfnewid yn gallu cynnal y costau ychwanegol, ac mae rhywfaint o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymyriadau ar gyfer y boblogaeth ifanc a'r henoed. | Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud llawer o waith eisoes yn y 7 mlynedd ddiwethaf.<br><br>Gellid ceisio arian gan wahanol sefydliadau<br><br>Gellid ceisio arian o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth, ond ar raddfa lai. |
| **Anabledd**<br>(corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, dirgel) | Isel (bach) | Risg bychan os tynnir yr arian grant, ni fyddai cyllideb ddigyfnewid yn gallu cynnal y costau ychwanegol, ac mae rhywfaint o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymyriadau ar gyfer pobl ag anableddau. | Fel uchod. |
| **Ailbennu Rhywedd**<br>(rhywun sydd mewn stad o drawsnewid o un rhyw i'r llall) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |
| **Priodas/Partneriaeth Sifil**<br>(cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>(Beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth, bwydo o'r fron) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |
| **Hil**<br>(Tarddiad Ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |
| **Crefydd/Credoau**<br>(Cristion, Mwslemaidd, Hindwaidd, Iddewig, Bwdaidd | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |
| **Rhyw**<br>(Menyw, Dyn) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>(Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iaith**<br>(Cymraeg eu hiaith, ieithoedd lleiafrifol ethnig, Braille, iaith arwyddion) | Isel | Nid ystyrir bod risg yn bresennol i'r nodwedd warchodedig hon. | |

***Os gwelir risg uchel i unrhyw nodwedd warchodedig, bydd angen Asesiad Llawn*** *(Ffurflen B)*. ***Os canolig yw'r risg, ond nad oes unrhyw Ffactorau Lliniarol, mae angen Asesiad Llawn hefyd, felly siaradwch gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb.***

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd ichi ei llenwi (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect ayyb), a chadwch gopi hefo'r ddogfen berthnasol.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gael eu cyhoeddi, felly caiff hon ei huwchlwytho i'r adran *Cydraddoldeb* ar y fewnrwyd, ac mae'n bosibl y bydd ar gael ar ein gwefan hefyd.

Cofiwch edrych ar y Canllawiau os nad ydych yn siwr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y sawl sy'n sgrinio:**<br>Llofnod:<br>Enw: C Dingle Dyddiad: 4 Mawrth 2014 | **Llofnod y sawl sy'n awdurdodi:**<br>Llofnod:<br>Enw: Dyddiad: |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Amcan Gwella 3

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw bolisïau, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau, ac mae'n cynnwys dogfennau newydd, rhai wedi'u hadolygu neu rai wedi'u diwygio'n sylweddol.

<table>
<tr><td colspan="2">Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir<br><br>Strategaeth Adnoddau GTAGC – Contract Hyblyg RDS<br><br>Amcan Gwella 3 Sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau o wasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn cael y gofal tân ac achub gorau posibl yn yr ardal</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bwrdd/Adran/Tîm<br><br>Gweithrediadau/Hyfforddi a Datblygu</td></tr>
<tr><td>Dyddiad sgrinio 10/02/14</td><td>Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?<br><br>Y gymuned, staff.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nodau, amcanion a chanlyniadau<br><br>Nod y contractau hyblyg yw darparu elfen hyblyg i staff yr ochr weithredol ac a fydd yn darparu cronfa gynaliadwy a fforddiadwy o griwiau gweithredol fel bod rhai ar gael mewn ardaloedd gwledig.</td></tr>
</table>

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ein cynorthwyo i hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal â rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon. Arf yw hwn a fydd o gymorth ichi pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddaru polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn fodd i wasanaethu fel awdit o'r penderfyniadau y byddwch yn eu cynnig.

Mae asesu ar gyfer effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae'n rhaid inni ystyried sut y bydd y penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw neu ogwydd rhywiol.

## Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchodedig isod, a nodwch a oes risg effaith **isel**, **canolig** ynteu **uchel** i'ch cynnig.

| **Lefel y risg** | |
|---|---|
| Isel | Yr effaith leiaf bosibl neu effaith fach iawn ar nodwedd warchodedig. Effaith niweidiol yn annhebygol. |
| Canolig | Risg isel i ganolig y gallai effaith ar nodwedd warchodedig ddigwydd. Mae mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol yn digwydd.<br><br>Os oes rhesymau lliniarol, megis rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. oedran trwydded yrru), gofynion y swydd (e.e. prawf llygaid i recriwtiaid), neu feini prawf prosiect (e.e. gyrwyr ifanc), rhaid cynnwys y rhain yn yr adran berthnasol. Sylwer na all y gost yn unig fod yn rheswm lliniarol. |
| Uchel | Effaith negyddol fawr ar y grŵp nodweddion gwarchodedig o ran y gymuned, y staff neu brosesau busnes. Byddai'n arwain at beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, ac felly gallai olygu risg i'r sefydliad. Os gwelir y lefel hon, rhaid llenwi Ffurflen Asesiad Llawn (B).<br><br>Ond os yw'r effaith yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau i grŵp sydd wedi ei dangynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân wedi ei hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol, a chaniateir hyn gan y gyfraith. |
| **Arferion Da / Ffactorau Lliniarol** | Os bydd y weithdrefn, y prosiect, y cynllun ayyb yn darparu gwelliannau – er enghraifft, pan fo'r geiriad yn cael ei wneud yn fwy cynhwysol, cofiwch roi hyn yn yr adran Arferion Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y nodir yn y Canllawiau), cofiwch eu nodi yma. |

| Nodweddion Gwarchodedig | Lefel y risg Uchel, Canolig, Isel | Eglurwch yn fras beth yw eich asesiad os gwelwch yn dda | Arferion Da a/neu Ffactorau Lliniarol |
|---|---|---|---|
| **Oedran**<br>(iau, hŷn neu grŵp oedran arbennig) | Uchel | Bydd y contract hyblyg yn cynnig o leiaf 21 awr yn ystod rota 4 diwrnod. Bydd pob diwrnod rota yn golygu bod y gweithiwr ar gael i ddarparu isafswm o oriau positif yn ystod cyfnod penodol rhwng 07:00 a 18:00 o'r gloch. Yr isafswm o 21 o oriau cyswllt yw'r swm y gellid ei defnyddio at ddibenion morgais. Gallai'r contract hwn apelio fwy at bobl sydd â llai o ymrwymiadau ariannol, a gallai hyn gael effaith ar staff yn y grŵp oedran 30 - 45 sydd â theuluoedd a morgais eisoes.<br><br>Mae'r rhai sydd wedi bod yn y GTA ers mwy o amser, ac felly'n debygol o fod yn hŷn, yn rhai na fydd wedi cymryd y profion NFS sydd newydd gael eu cyflwyno. Gallai hyn olygu anfantais oherwydd na fyddant wedi gorfod cymryd profion o'r fath yn y gorffennol ond eu bod yn cyflawni'r un rôl ar y system RDS. | Tynnir sylw at fanylion y rôl a disgwyliadau ac anghenion y Gwasanaeth. Cyfle i gynyddu cyflog drwy weithio mwy na 21 awr, a chadw'r contract RDS ac felly'r incwm.<br><br>Mae angen elfen 'hyblyg' y rôl er mwyn darparu gofal gweithredol a deinamig er lles cymunedau Gogledd Cymru.<br><br>Y rôl fydd darparu gofal tân fforddiadwy a chynaliadwy i gymunedau gwledig ac anghysbell yng Ngogledd Cymru lle mae symud allan o'r ardal ar gyfer y prif gyflogaeth yn effeithio ar ddulliau traddodiadol o recriwtio i'r system RDS.<br><br>Bydd y broses recriwtio a dethol yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o achosion unigol mewn perthynas â meini prawf penodol, a chaiff ei monitro i sicrhau na fydd yn niweidiol i unrhyw grŵp.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>(corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, dirgel) | Isel | Mae elfen weithredol y rôl wedi ei gosod dan y mapiau rôl cenedlaethol.<br><br>Mae anabledd gan 2.76% o weithwyr y system. | Bydd y broses recriwtio a dethol i'r rolau hyn yn cael ei gwneud gan ddilyn polisi Cymru gyfan a phrofion cenedlaethol i ddethol diffoddwyr tân (profion NFS). Mae hyn yn union yr un fath â'r broses recriwtio i bob rôl diffoddwyr tân ar hyn o bryd yn y GTA. Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Bydd y Gwasanaeth yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais oherwydd y broses recriwtio, e.e. efallai y bydd angen mwy o amser ar ymgeisydd dyslecsig.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith.<br><br>Mae'r symbol 'Tic Dwbl' gan y Gwasanaeth, mae'n aelod siartredig o 'Cyflogwr Ystyriol', mae'n annog y defnydd o 'Mynediad i Waith' ac mae'n gwneud addasiadau rhesymol lle bo modd (cymhorthion clywed, papur lliw, offer arbenigol).<br>Cynigir cefnogaeth arbenigol i'r staff drwy Iechyd Galwedigaethol, a chynhelir adolygiadau rheolaidd o anghenion pobl anabl. Ceir cefnogaeth arbenigol ar gyfer anabledd drwy gydweithio'n agos â Swyddogion o'r Ganolfan Byd Gwaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd**<br>(rhywun sydd mewn stad o drawsnewid o un rhyw i'r llall) | Isel | Dim gwahaniaethu yn y maes hwn gan fod y gwaith dethol a recriwtio yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r profion NFS.<br><br>Gwerthoedd craidd y Gwasanaeth.<br><br>Ni chofnodwyd bod neb o blith gweithwyr y system RDS wedi ailbennu rhywedd nac wrthi'n gwneud hynny. | Y profion NFS.<br>Gwerthoedd craidd.<br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |
| **Priodas/Partneriaeth Sifil**<br>(cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw) | Isel | Dim gwahaniaethu yn y maes hwn gan fod y gwaith dethol a recriwtio yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r profion NFS.<br><br>Gwerthoedd craidd y Gwasanaeth.<br><br>Y categori mwyaf o weithwyr yw rhai priod (45%). | Y profion NFS.<br>Gwerthoedd craidd.<br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>(Beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth, bwydo o'r fron) | Uchel | Yn anffodus, ni fydd aelodau o'r staff sydd heb fod ar gael ar gyfer dyletswyddau gweithredol am y tymor hir (oherwydd salwch, anaf, neu'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth) yn gallu gwneud cais gan fod gofyn cyflawni'r swydd mewn cyd-destun gweithredol ar unwaith, o ran hyfforddiant ac ymateb brys.<br><br>Mae holl staff y system RDS wedi cael eu briffio ac wedi cael cyfle i wneud cais am y swyddi.<br><br>Y drefn yn y Gwasanaeth yw rhoi gwybod am swyddi gwag i weithwyr y system RDS sydd ar famolaeth/tadolaeth/salwch tymor hir.<br><br>Yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd tair yn feichiog a chymerwyd absenoldeb mamolaeth gan ddwy.<br><br>Mae 20 o weithwyr y system RDS yn fenywod. | Rhagwelir y bydd rhagor o gyfleoedd yn y dyfodol os bydd y cynllun peilot hwn yn llwyddiannus.<br><br>Mae angen lleoli ar unwaith mewn cyd-destun gweithredol o ran hyfforddiant ac ymateb brys i sicrhau gwelliant yn y gofal tân mewn cymunedau gwledig.<br><br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hil**<br>(Tarddiad Ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr) | Isel | Dim gwahaniaethu yn y maes hwn gan fod y gwaith dethol a recriwtio yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r profion NFS.<br><br>Gwerthoedd craidd y Gwasanaeth.<br><br>Mae llai na 1% wedi datgan eu bod o leiafrif ethnig. | Y profion NFS.<br>Gwerthoedd craidd.<br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |
| **Crefydd/Credoau**<br>(Cristion, Mwslemaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Bwdaidd | Isel | Mae mymryn dros 50% o'r gweithwyr yn Gristnogion. | Y profion NFS.<br>Gwerthoedd craidd.<br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |
| **Rhyw**<br>(Menyw, Dyn) | Uchel | Nifer gyfyngedig o weithwyr y system RDS sy'n fenywod ac yn y gronfa o ymgeiswyr, h.y. 20 o fenywod. Efallai na fyddai'r swyddi'n gweddu i rai â chyfrifoldebau gofalu, h.y. menywod yn bennaf, gan na fyddent yn gallu darparu'r hyblygrwydd o ran oriau, daearyddiaeth ac amser teithio.<br><br>Mae mwy o fenywod yn gwneud cais am swyddi ar sail ran amser/rhannu swydd, felly fe allai'r contract 21 awr weddu i fenywod. Ond gan mai 21 awr fyddai'r isafswm, efallai y byddai hyn yn golygu y byddai llai o fenywod yn dangos diddordeb yn y swyddi gan na fyddent yn gallu ymrwymo i'r hyblygrwydd, h.y. gweithio hyd at 42 awr a dim patrwm shifftiau pendant. | Y profion NFS.<br>Gwerthoedd craidd.<br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>(Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol) | Isel | 1 hoyw/lesbiaidd | Y profion NFS.<br>Gwerthoedd craidd.<br>Bydd y swyddi yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân gweithredol presennol, a rheolwyr criwiau ar y system RDS.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth gynllun cefnogi cydweithwyr ar gyfer y staff, ac mae hyn yn cynnwys rhif cyswllt ar gyfer pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. |
| **Iaith**<br>(Cymraeg eu hiaith, ieithoedd lleiafrifol ethnig, Braille, iaith arwyddion) | Isel | Bydd gofyn i ymgeiswyr gyrraedd Lefel 2 o leiaf yn y Gymraeg. Os nad ydynt ar y lefel hon, rhoddir cefnogaeth ac amserlen addas i gyrraedd y lefel.<br><br>Caiff prosesau eu haddasu fel y bo'r angen.<br><br>Mae 149 o weithwyr y system RDS wedi eu hasesu ar Lefel 4 mewn siarad Cymraeg. | Mae hwn yn bolisi ar gyfer pob contract newydd gyda GTAGC. Rhoddir cefnogaeth ar bob lefel.<br><br>Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg yn eu lle i helpu'r staff i ddatblygu.<br><br>Cynigir CDs Cymraeg gyda thrawsgrifiadau, i'w defnyddio gartref<br>Bydd y swyddi'n agored i'r holl diffoddwyr tân gweithredol a rheolwyr criwiau ar y system RDS<br><br>Cynigir cyfweliadau/deunyddiau recriwtio yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn iddynt allu mynd drwy'r broses yn eu dewis iaith.<br><br>Pan welir bod meini prawf neu weithdrefn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grŵp penodol, bydd angen eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y gyfraith. |

***Os gwelir risg uchel i unrhyw nodwedd warchodedig, bydd angen Asesiad Llawn*** *(Ffurflen B)**. Os canolig yw'r risg, ond nad oes unrhyw Ffactorau Lliniarol, mae angen Asesiad Llawn hefyd, felly siaradwch gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb.***

Rhaid i’r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd ichi ei llenwi (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect ayyb), a chadwch gopi hefo'r ddogfen berthnasol.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gael eu cyhoeddi, felly caiff hon ei uwchlwytho i’r adran *Cydraddoldeb* ar y fewnrwyd, ac mae’n bosibl y bydd ar gael ar ein gwefan hefyd.

Cofiwch edrych ar y Canllawiau os nad ydych yn siwr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’ch Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

| **Llofnod y sawl sy’n sgrinio:** | **Llofnod y sawl sy’n awdurdodi:** |
|---|---|
| Llofnod: | Llofnod: |
| Enw: Kevin Roberts Dyddiad: 10/02/14 | Enw: Dyddiad: |